**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

**24 GORFFENNAF 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod o bell ddydd Mercher, 24 Gorffennaf 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Brian Harvey (Cadeirydd) |
| Aelodau Cyfetholedig: | Allan Rainford |
| Y Cynghorwyr: | Teresa Carberry, Ted Palmer, Andrew Parkhurst a Linda Thew |
| Dirprwy: | Y Cynghorydd Bill Crease (ar ran Andy Hughes) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Roedd y Cynghorwyr Dave Hughes, Ian Roberts a Linda Thomas yn bresennol fel arsylwyr |
| **YMDDIHEURIAD:** | Sally Ellis (aelod cyfetholedig) |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol); y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles); Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg; Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Rheolwr Cyllid Strategol; Prif Gyfrifydd; Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) ar gyfer cofnod rhif 20; Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) a Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio ar gyfer cofnod rhif 26<br><br>Carwyn Rees a Mike Whiteley o Archwilio Cymru |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

## 15. DIRPRWYON

Yn unol â gofynion y Cyfansoddiad, penderfynodd y Pwyllgor ganiatáu i'r Cynghorydd Bill Crease (a oedd wedi gwneud yr hyfforddiant gofynnol) ddirprwyo ar ran y Cynghorydd Andy Hughes.

**PENDERFYNWYD:**

Caniatáu i'r Cynghorydd Bill Crease ddirprwyo yn y cyfarfod.

## 16. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Yn ystod trafodaeth am gofnod rhif 24 (Archwilio Cymru - Cynllun Archwilio 2024), datganodd y Cynghorydd Ted Palmer gysylltiad personol fel Cyfarwyddwr NEW Homes.

17. **COFNODION** **(Dolen i'r recordiad)**

Cafwyd pleidlais am gofnodion cyfarfod mis Mehefin 2024 ac fe'u cafwyd yn gywir. Yn dilyn pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Parkhurst, gofynnodd bod ei bleidlais yn erbyn cymeradwyaeth yn cael ei chofnodi. Gofynnodd y Cynghorydd Thew am gael cofnodi'r ffaith iddi ymatal rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2024 yn gofnod cywir; a

(b) Bod y sylwadau a wnaed am fformat diwygiedig y cofnodion yn cael eu hadrodd yn ôl i Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd i'w hadolygu.

18. **DATGANIAD CYFRIFON 2023/24** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwr Cyllid Strategol Ddatganiad Cyfrifon Drafft 2023/24 a chafwyd cyflwyniad ar y materion allweddol.

Ymatebodd Swyddogion i amrywiaeth o gwestiynau a chytuno i adolygu sylwebaeth ar amrywiadau sylweddol yn adran naratif yr adroddiad terfynol. Byddai copi o'r sleidiau yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi Datganiad Cyfrifon drafft 2023/24 (sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol); a

(b) Bod yr Aelodau'n nodi'r cyfle i drafod unrhyw agwedd ar y Datganiad Cyfrifon drafft gyda swyddogion neu Archwilio Cymru yn ystod y cyfnod archwilio, cyn i'r fersiwn archwiliedig derfynol ddod yn ôl at y Pwyllgor i'w gymeradwyo'n derfynol ar 25 Tachwedd 2024.

19. **GWYBODAETH ARIANNOL ATODOL I DDATGANIAD CYFRIFON 2023/24** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol adroddiad am wybodaeth ariannol atodol sy'n cyd-fynd â Datganiad Cyfrifon drafft 2023/24, yn unol â'r cais a wnaed yn y Rhybudd o Gynnig a gymeradwywyd gan y Cyngor yn 2013.

Yn ystod trafodaeth am reolyddion sy'n ymwneud â defnyddio gweithwyr asiantaeth, nodwyd y byddai canfyddiadau adolygiad Archwilio Mewnol yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor pan fyddent wedi'u cadarnhau.

Cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

**20. AROLWG GWERTHUSO PERFFORMIAD, AROLYGIAETH GOFAL CYMRU O'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL TACHWEDD 2023 - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CYNLLUN GWEITHREDU (Dolen i'r Recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) adroddiad am gynnydd camau gweithredu a oedd yn deillio o'r arolwg gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi canlyniad yr adroddiad a chefnogi'r Cynllun Gweithredu canlyniadol.

**21. ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2023/24 A DIWEDDARIAD Ch1 2024/25 (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol yr adroddiad a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol Drafft ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24 i'w adolygu a'i argymell i'r Cabinet, ynghyd â sefyllfa Chwarter 1 2024/25 er gwybodaeth.

Nododd Swyddogion y cais a gafwyd bod y sesiwn hyfforddiant nesaf ar Reoli'r Trysorlys yn cynnwys rhagor o eglurder am y graff meincnod atebolrwydd.

Cafodd yr argymhellion eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi Adroddiad Blynyddol drafft Rheoli'r Trysorlys 2023/24, heb unrhyw faterion i'w tynnu i sylw'r Cabinet ym mis Medi; a

(b) Nodi'r diweddariad chwarter cyntaf ynglŷn â Rheoli'r Trysorlys yn 2024/25.

**22. ARDYSTIO GRANTIAU A FFURFLENNI 2022/23 (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd Mike Whiteley o Archwilio Cymru a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad ar ardystiad hawl grant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a ddaeth i'r casgliad bod y Cyngor wedi dangos trefniadau digonol cyffredinol ar gyfer paratoi hawliadau grant a chefnogi gwaith ardystio, gyda rhywfaint o gwmpas ar gyfer gwelliant fel a adlewyrchwyd yn yr argymhellion penodol.

Cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi cynnwys adroddiad Ardystiad Hawl Grant ar gyfer 2022/23.

**23. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2023/24 (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24 fel rhan o'i gyfrifon terfynol, i nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol wrth sicrhau llywodraethu da a rheoli ei risgiau.

Cefnogwyd yr argymhelliad, a nodwyd bod y Cynghorydd Andrew Parkhurst wedi ymatal rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl adolygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 (sy'n ffurfio rhan o'r Datganiad Cyfrifon), bod y Pwyllgor yn argymell bod y Cyngor yn ei fabwysiadu.

**24. ARCHWILIO CYMRU - CYNLLUN ARCHWILIO 2024 (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a chydweithwyr Archwilio Cymru Gynllun Manwl 2024, Archwilio Cymru, a oedd yn nodi gwaith yr oedd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd canolbwynt allweddol eraill yn ystod 2024.

Cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo Cynllun Archwilio Manwl 2024, Archwilio Cymru.

**25. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol, a oedd yn rhoi crynodeb o ganlyniadau gwaith archwilio a wnaed yn ystod 2023/24, cydymffurfiaeth â safonau a chanlyniadau'r rhaglen sicrhau ansawdd a gwella. Defnyddiwyd yr adroddiad a barn i lywio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad a barn flynyddol Archwilio Mewnol.

**26.** **ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg yr adroddiad i roi diweddariad ar gynnydd i'r Pwyllgor yn erbyn y Cynllun, adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd, olrhain camau gweithredu, dangosyddion perfformiad ac ymchwiliadau presennol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ar gynnydd camau gweithredu a oedd yn ymwneud â dau adroddiad Oren Coch (rhywfaint o sicrwydd) a gyhoeddwyd ers y diweddariad blaenorol.  Roedd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) a'r Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio yn bresennol i ymateb i gwestiynau a oedd yn ymwneud â'r adroddiad Coch (sicrwydd cyfyngedig) ar Dargedau Ailgylchu.

Cefnogwyd yr argymhelliad, a nodwyd bod y Cynghorydd Crease, y Cynghorydd Parkhurst a'r Cynghorydd Thew wedi ymatal rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiad.

**27.** **AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am12.20pm)

Y Cadeirydd

…………………………………………………

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell weddarllediadau yma: https://flintshire.public-i.tv/core/portal/home